Cyngor Ieuenctid Cymru - Neges

# YMGYNGHORI GYDA PHOBL IFANC
# SEALAND MANOR, CLWYD

Liam Kealy, Uwch Swyddog Datblygu, Cyngor Ieuenctid Cymru

Cyngor Ieuenctid Cymru & Fforwm Ieuenctid Cymru
Rhagfyr 1993

## Cyflwyniad

Deilliodd y syniad o gynnal y prosiect hwn yn sgil trafodaethau a gafwyd gydag Asiantaeth Gymunedol Alun a Glannau Dyfrdwy ynglyn â natur swyddogaeth y Cyngor/Fforwm yn gymruso pobl ifanc ac yn datblygu modelau ymarfer i alluogi pobl ifanc i gael llais yn eu cymunedau.

Amcanion y prosiect oedd galluogi pobl ifanc a'r gymuned leol i ddod i benderfyniad ynglyn â defnydd canolfan gymunedol Sealand Manor ar gyfer gweithgareddau pobl ifanc a sut mae modd i bobl ifanc gyfrannu at hynny. Roedd y prosiect hefyd yn ymwneud ag ymgyrchoedd ehangach yn delio â buddiannau a phryderon pobl ifanc yr ardal.

Roedd y prosiect, yn ei hanfod felly, wedi ei wreiddio yn y gymdogaeth. Gweithredodd ar y cysyniad y byddai pobl yn fwy tebyg o uniaethu gydag unrhyw ddarpariaeth pe baen nhw wedi bod yn rhan o'r broses o'i datblygu.

Un o agweddau pwysicaf y prosiect oedd ei fod wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau. Gweithiodd Cyngor Ieuenctid Cymru gyda Gwasanaeth Ieuenctid Canolbarth Clwyd, Asiantaeth Gymunedol Alun a Glannau Dyfrdwy a Gwasanaethau Cymdeithasol Clwyd. Cyfrannodd bawb adnoddau i ddatblygu'r prosiect ac asesu ei ddefnyddioldeb fel model o ymarfer y gellid ei ddefnyddio mewn ardaloedd eraill. Cydlynwyd y rhwydweithio gan Asiantaeth Gymunedol Alun a Glannau Dyfrdwy, a chwaraeodd swyddogaeth bwysig yn y broses o sefydlu'r ymgynghori. Mae'r bartneriaeth hon gydag asiantaeth leol yn darparu model defnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol.

Roedd Cyngor Cymuned Sealand gant y gant y tu ôl i'r ymgynghori, ac roedden nhw'n awyddus i ganfod sut oedd modd iddyn nhw ddatblygu gwasanaethau i bobl ifanc yn yr ardal.

## Y Lleoliad

Mae Sealand Manor yn stâd fechan o ryw 122 teulu, gyda phoblogaeth o 342 o bobl. Ynysyir y stâd oddi wrth rannau eraill Sealand gan briffordd brysur ar un ochr a chan afon Dyfrdwy ar yr ochr arall.

Mae'r stâd yn ifanc iawn. Yn ôl cyfrifiad 1991, mae 45% o'r boblogaeth dan 24 oed, ac o ystyried mai ychydig o wasanaethau sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc, gallai hwn fod yn fater i'w ystyried wrth gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol. Mae Ffigyrau 1 a 2 Atodiad 1 yn nodi'r strwythur oedran yn ogystal â niferoedd y bobl ifanc o fewn grwpiau oedran penodol.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, cafwyd sawl ymdrech i ddatblygu gwasanaethau, ar gyfer y gymuned ac ar gyfer pobl ifanc.

Gobeithir y bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi digon o wybodaeth i'r cyngor cymuned ac i'r asiantaethau perthnasol er mwyn eu galluogi i ddatblygu rhywbeth a fyddai'n berthnasol i bobl ifanc.

## Hanes y stâd

Datblygwyd y stâd i ddechrau gan Gymdeithas Anheddau Tir Cymru ym 1935, er mwyn cynnig gwaith a thai i lowyr oedd yn methu â pharhau i weithio tanddaear ohewydd iechyd bregus. Adeiladwyd 80 o dai i'w gosod ar rent, yn ogystal â fferm a oedd i roi gwaith i drigolion y stâd. Roedd y rhan fwyaf o'r glowyr a'u teuluoedd yn dod o Dde Cymru, wedi eu denu, o bosib, gan safon y tai. Gallai'r mewnlifiad hwn o bobl o ddiwylliant a chymunedau gwahanol fod yn un rheswm pam bod y stâd yn teimlo ei hun ar wahan i rannau eraill Sealand, er nad oedd y trigolion hyn yn mynegi teimladau o'r fath. Byddai gweithwyr ardal Garden City, beth bynnag, wedi gweithio'n bennaf yng Ngwaith Dur Shotton, felly ychydig o gyfle a fyddai'r ddwy gymuned wedi ei gael i gymysgu â'i gilydd.

Yn raddol, daeth tuedd i bobl gefnu ar weithio ar y fferm, gan droi at waith yn y diwydiannau Tecstil a Dur. Mae rhyw 30% o'r teuluoedd sy'n byw ar y stâd yn perthyn i'r tenantiaid gwreiddiol.

Adeiladwyd mwy o dai ar y stâd ar ôl y rhyfel, a mwy wedyn yn yr 1970au. Ar hyn o bryd, mae traean o dai y stâd mewn perchenogaeth breifat, yn dilyn y Ddeddf Hawl i Brynu.

## Cyfleusterau ar gyfer Pobl Ifanc a'r Gymuned

Y brif ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yw Canolfan Ieuenctid Sealand, sydd rhyw filltir o ardal Garden City. Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd y ganolfan o Sealand Manor, rhaid cerdded ar hyd llwybr tywyll ac ar hyd ffordd danddaear. Mae hyn wedi ychwanegu at y teimlad o arwahanrwydd y stâd - barn a fynegwyd gan y bobl ifanc a'r bobl yn eu hugeiniau hwyr y buom ni yn

siarad â nhw.

Mae'r ganolfan ieuenctid yn Garden City yn un brysur iawn sy'n denu bobl ifanc o bob rhan o Sealand. Er bod canolfan gymuned yn Sealand Manor, ychydig iawn o wasanaethau a ddatblygwyd ar gyfer y gymuned, a dim oll ar gyfer pobl ifanc. Yr unig wasanaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yw grwp rhieni ifanc a gefnogir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd. Rhedir y grwp gan y rhieni eu hunain, ac maen nhw'n hynod frwdfrydig. Un o ddatblygiadau arloesol y cyfarfodydd yw presenoldeb ymwelydd iechyd, sydd wedi mabwysiadu agwedd dipyn mwy anffurfiol i'w gwaith o'i gymharu â'r hyn yr ydym wedi arfer ei ddisgwyl.

Yr unig fath arall o ddarpariaeth yw cynllun chwarae a redir gan Gyngor Dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy yn ystod yr haf.

Dylid nodi mai pobl ifanc rhwng 10 - 17 oed, yn byw yn Sealand Manor adeg cynnal cyfrifiad 1991, oedd 24% o'r boblogaeth oedran hwnnw yn nalgylch Canolfan Ieuenctid Sealand, ystadegyn sydd ddim i'w weld yn cael ei adlewyrchu yn y gwasanaethau a gynigir yn yr ardal.

## Methodoleg

Y bwriad oedd cynnal holiadur (gweler Atodiad 4) gyda phobl ifanc yr ardal er mwyn eu galluogi i fynegi eu pryderon a'u diddordebau a pha wasanaethau y maen nhw'n teimlo y dylid eu datblygu ar gyfer pobl ifanc. Y bwriad hefyd oedd ceisio meithrin cyfranogiad pobl ifanc yn y broses hon a'u cefnogi wrth fynd âu syniadau ger bron y cyngor cymuned. I'r perwyl hwn, cafodd Liam Kealy gefnogaeth Danny Hammel, gweithiwr ieuenctid o Ganolfan Ieuenctid Sealand. Noddwyd sesiynau Danny gan Wasanaeth Ieuenctid Canolbarth Clwyd, fel eu cyfraniad hwy i'r prosiect.

Y rhaglen arfaethedig oedd:

Sesiwn 1: Gyda'r nos: dosbarthu taflenni a sesiwn gyswllt gyntaf (gweler Atodiad 3)

Sesiwn 2: Prynhawn a nos: holiadur a sesiwn gyswllt

Sesiwn 3: Prynhawn a nos: holiadur a sesiwn gyswllt.

Sesiwn 4: Prynhawn a nos: holiadur a sesiwn gyswllt.

Sesiwn 5: Prynhawn a nos: holiadur a sesiwn gyswllt.

Sesiwn 6: Prynhawn a nos: Sesiwn gyswllt a chyfarfod cyffredinol gyda'r bobl ifanc.

Sesiwn 7: Sesiwn ddilynol i'r uchod

Sesiwn 8: Prynhawn a nos: Sesiwn gyswllt a chyfarfod gyda'r bobl ifanc a'r

cyngor cymuned.

Sesiwn 9: Mynd ag ymateb at yr asiantaethau perthnasol a sesiwn derfynol gyda'r bobl ifanc.

**Beth oedd gan bobl ifanc i'w ddweud**

Aeth y sesiynau cyswllt, ar y cyfan, yn ôl y bwriad, ac fe gysylltwyd â rhyw 30 person ifanc a phlant rhwng 6 a 18 oed ar y stryd, yn eu cartrefi, drwy gyfrwng eu rhieni neu yn y cyfarfod a drefnwyd ar 10fed Dachwedd. Y prif neges a leisiwyd oedd y pryder mawr ynglyn â'r diffyg llwyr o unrhyw gyfleusterau i blant a phobl ifanc ar y stâd, a'r problemau yr oedd hyn yn eu hachosi iddyn nhw ac i'r gymuned. Roedd gwahaniaeth yn y ffordd yr oedd plant dan 12 a phobl ifanc dros 12 yn gweld pethau, ac roedd hefyd wahaniaeth yn y ffordd yr oedd llancesau yn gweld anasawdd bywyd o'i gymharu â'r llanciau.

Roedd y llanciau yn bryderus iawn ynglyn â'r diffyg cyfleusterau a'r gwrthdaro yr oedd hyn yn ei achosi gydag oedolion ar y stâd. Ar y llaw arall, roedd y llancesau yn gwerthfawrogi'r cyfeillgarwch oedd ganddyn nhw, ac roedd hynny i'w weld yn gwneud iawn, i ryw raddau, am y prinder cyfleusterau.

Roedd pobl ifanc yn aml yn sôn am glybiau ieuenctid a drefnwyd yn y gorffennol, ac unwaith yn rhagor, cymysg oedd yr ymateb. Roedd plant a phobl ifanc dan 12 oed wedi mwynhau'r clwb, ond yn teimlo bod yr oedolion oedd yn rhedeg y clwb angen cymorth i ddelio'n llwyddiannus gydag ymddygiad y bechgyn hyn oedd yn tarfu'n aml ar y sesiynau. Roedd yr elfen honno wedi gwneud i bobl deimlo'n ansicr.

Roedd ail-ddechrau'r math hwn o Glwb Iau yn wasanaeth hanfodol, yn nhyb y grwp oedran hwn. Byddai hyn yn golygu datblygu nosweithiau strwythuredig a gweithgareddau i gynnwys pethau fel Bingo, Celf a Chrefft, Bar Coffi yn gwerthu dewis o ffernis, ac amgylchedd ble gallai plant deimlo'n ddiogel. Roedd y plant yn derbyn y posibilrwydd o gael rhieni neu oedolion eraill oddi ar y stâd yn cynnig cefnogaeth. Fodd bynnag, roedd y grwp oedran hwn yn un-fryd na allai Clwb Iau gael ei gynnal heb rhyw ddarpariaeth arall yn cael ei threfnu i gyd-redeg ag ef, er mwyn gwneud yn siwr bod llanciau hyn yn cadw draw, ac yn peidio â tharfu ar y clwb. Roedd plant yn teimlo'n ansicr iawn ynglyn â'r ymddygiad yr oedden nhw wedi ei wynebu gan y grwp hyn hwn o'r blaen.

Roedd y grwp hyn, llanciau yn bennaf, o'r farn nad oedd y clybiau wedi bod yn rhai da. Doedd y math o weithgarwch a gynigid ddim yn berthnasol neu yn ddigon iddyn nhw. Roedden nhw'n derbyn bod eu hymddygiad wedi cyfrannu at dranc y clwb. Roedden nhw hefyd yn bryderus eu bod yn methu uniaethu â'r gweithwyr ieuenctid oedd yn cynnal y clwb, unai oherwydd gwahaniaeth cenhedlaeth neu oherwydd nad oedd gan y gweithwyr ieuenctid empathi gyda phobl ifanc. Dywedodd un llanc, "dan ni angen pobl fel chi - rhywun y gallwn ni siarad ag o". Roedd llanciau a llancesau'r grwp oedran hwn hefyd yn teimlo bod angen gweithwyr ieuenctid oedd heb fod yn byw ar y stâd, er

mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Roedd plant a phobl ifanc o bob oedran yn gosod gwerth ar gynnal disgo. Roedden nhw hefyd yn gytun ynglyn â gwerth tripiau a gweithgareddau a olygai bod pobl ifanc yn cael gadael y stâd a meithrin profiadau newydd.

Roedd patrymau ymddygiad yn fater a drafodwyd gyda'r llanciau hyn. Roedden nhw'n ymwybodol o'r gwrthdaro yr oedd eu hymddygiad yn ei greu yn y gymuned, a hynny'n cynnwys fandaliaeth, rhedeg drwy erddi pobl a gweiddi'n ddilornus ar bobl a gerddai heibio. Cawsom yr argraff mai traddodiad diwylliannol oedd hwn, a phatrwm ymddygiad a etifeddwyd gan wahanol grwpiau oedran. Roedd rhai o'r bobl a fynychai'r grwp rhieni ifanc yn cofio iddyn nhw eu hunain ymddwyn yn yr un ffordd pan oedden nhw yn eu harddegau. O ystyried bod bechgyn 10 a 11 oed yn cymysgu gyda grwp oedran hyn, ymddengys mai ymddygiad a gaiff ei ddysgu yw hwn. Mae hefyd yn cael ei waethygu gan y diffyg mwynderau.

Er enghraifft, yr unig le i chwarae pel-droed ar nosweithiau tywyll, yw rhwng dwy garej sydd wedi eu goleuo gan lampau'r stryd. Fodd bynnag, mae'r lle hwn ar y prif ffordd a drws nesaf i dai ble mae teuluoedd ifanc yn byw. Gan bod peli yn aml yn mynd i'r gerddi a bod grwpiau mawr o lanciau yn defnyddio'r ardal tan yn hwyr y nos, does ryfedd bod gwrthdaro yn codi.

Yn olaf, y neges bwysig arall a gawsom gan bobl ifanc oedd bod angen iddyn nhw gael llais yn nhrefniadaeth a datblygiad y gweithgareddau, yn hytrach na chael eu cadw mewn sefyllfa i wneud dim mwy na'u derbyn.

## ARGYMHELLION

Credir bod angen pecyn integredig o atebion er mwyn cefnogi datblygiad plant drwy greu patrymau newydd o ymddygiad drwy gyfrwng gweithgareddau adeiladol. Byddai pobl ifanc hyn yn elwa o ddarpariaeth sy'n galluogi iddynt ffurfio cysylltiad cryfach gyda'r ganolfan ieuenctid yn Garden City ac sy'n eu cadw rhag ymddygiad sy'n eu rhoi mewn perygl. Byddai'r stâd hefyd yn elwa o well cyfleusterau hamdden a chyfleusterau chwarae. Mae gan hyn oblygiadau i:

1. Gwasanaethau Cymdeithasol
2. Y Gwasanaeth Ieuenctid
3. Y Cyngor Cymuned
4. Yr Asiantaeth Gymunedol

### *1. I Wasanaethau Cymdeithasol*

Byddai Clwb Iau i blant dan 12 oed yn cyfrannu at ddatblygiad personol plant y stâd. Byddai'n cynnig rhaglen o weithgareddau, a gallai gynnwys rhieni yn ei drefniadaeth. Byddai angen yr adnoddau canlynol i sicrhau hyn:

- Amser datblygu gan weithiwr proffesiynol er mwyn annog cyfraniad rhieni lleol a'u cefnogi yn y gwaith o redeg y clwb a'u galluogi i ddod yn gorff gwirfoddol annibynnol.

- Gweithiwr meithrinfa sesiynol i blant ifanc, er mwyn i rieni gymryd rhan.

### *2. I'r Gwasanaeth Ieuenctid*

Pobl ifanc rhwng 10 - 17 oed, ac yn byw yn Sealand Manor adeg cynnal cyfrifiad 1991, oedd 24% o'r boblogaeth oedran hwnnw yn nalgylch Canolfan Ieuenctid Sealand. Mae'r grwp oedran hwn yn cynrychioli grwp targed y ganolfan ac yn ganran sylweddol ohono. Er bod y ganolfan yn denu rhai o lanciau'r grwp hwn, ychydig iawn o'r llancesau sy'n mynychu'r ganolfan.

Gan ddwyn y ffaith honno mewn cof, a'i chysylltu â'r pynciau a fynegwyd gan y grwp oedran hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori, credir y byddai'r stâd yn elwa o weithredu rhaglen gwaith maes gyda ieuenctid, wedi ei gynllunio i:

- hyrwyddo cysylltiad cryfach rhwng pobl ifanc a Chanolfan Ieuenctid Sealand. Byddai hyn yn golygu gweithiwr yn datblygu perthynas bositif gyda phobl ifanc a defnyddio adnoddau'r ganolfan i gyfrannu tuag at ddatblygiad y grwp a'r bobl ifanc o'i fewn.

- denu pobl ifanc oddi wrth ymddygiad tarfuol a datblygu modelau newydd o ymddygiad a gaiff ei etifeddu gan y grwpiau oedran iau.

- datblygu materion yn ymwneud â phobl ifanc.

- defnyddio canolfan gymuned Sealand Manor fel adnoddyn a man cyfarfod, yn ôl y galw, yn hytrach na fel prif ganolbwynt gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc.

Er mwyn adnoddu'r uchod, byddai dau weithiwr yn gweithio dwy sesiwn yr wythnos yn ddelfrydol. A derbyn nad oes modd efallai i ni gwrdd â hyn o'r gyllideb gyfredol, argymhellir bod un gweithiwr yn cael ei noddi am un seswin yr wythnos i gynnal cysylltiad a datblygu perthynas gyda phobl ifanc, tan y flwyddyn ariannol newydd.

### *3. I'r Cyngor Cymuned*

Mae gan y Cyngor Cymuned rôl bwysig i'w chwarae yn y broses o sicrhau gwell cyfleusterau hamdden a chyfleusterau chwarae, wrth drafod gyda'r Cyngor Dosbarth. Yn benodol:

- Ad-leoli offer chwarae i ran arall o'r cae.

- Datblygu cae pel-droed ar y tarmac lle mae'r offer chwarae wedi ei osod ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu ei ffensio i ffwrdd a gosod goleuadau

digonol, a’r rheini wedi eu rhedeg gan swits amser.  Dylid edrych yn fanwl ar y problemau a allai godi yn sgil fandaliaeth, a’u datrys cyn gosod goleuadau.  Byddai hyn yn golygu bod pobl ifanc yn gallu chwarae pel-droed ayyb ymhell oddi wrth dai.

### *4. I’r Asiantaeth Gymunedol*

Mae gan yr asiantaeth gymunedol rôl bwysig i’w chwarae yn y broses o ddatblygu’r materion a amlinellir yn y papur hwn.  Credir bod ganddi’r cyfraniadau canlynol i’w gwneud:

- gweithio mewn swyddogaeth sy'n caniatau i'r partneriaid eraill gydlynu eu hymdrechion er mwyn i'r gwasanaethau gael eu cyfarwyddo'n effeithiol.

- sicrhau adnoddau i grwpiau gwirfoddol lleol.

- sicrhau cyngor a gwybodaeth ariannol mewn perthynas â datblygu clwb gwirfoddol annibynnol i blant a phobl ifanc.

## Amserlenni a Blaenoriaethau

Rhagfyr 1993 i Mawrth 31 1994

### *Cadw cysylltiad â Phobl Ifanc*

Un gweithiwr am un sesiwn yr wythnos (Cost o rhyw £500)

### *Ymateb i Anghenion Iau*

- sefydlu cyfraniad rhieni
- angen meithrinfa/gofal
- angen talu sylw i bobl ifanc hyn, er mwyn sicrhau lle i’r datblygiad hwn
- angen arian ar gyfer rhent, offer a gweithgareddau

### *Pynciau i’r Cyngor Cymuned*

- ystyried sefydlu archebiant i gyfrannu tuag at ddatblygu gwaith ieuenctid ar y stâd.

- datblygu defnydd a rheolaeth y ganolfan mewn ffordd sy’n atal fandaliaeth. Bydd cefnogi gwaith ieuenctid yn cyfrannu tuag at hyn.

- sicrhau ymrwymiad gan y Cyngor Dosbarth i wella’r cyfleusterau chwarae.

- codi incwm o'r ganolfan

O Ebrill 1af ymlaen

Adnoddau Gwaith Maes Ieuenctid ar gyfer gweithwyr am 2 sesiwn yr wythnos yr un.  Un menyw, un dyn.

Cefnogaeth barhaol i waith y Clwb Iau

Cyfraniad parhaus gan bobl ifanc, plant ac oedolion lleol, tuag at y broses o ddatblygu ymgyrchoedd lleol.

## Atodiad 1

POBL IFANC A PHOBLOGAETH
YN OL STRWYTHUR OEDRAN

Nifer y Plant a'r Bobl Ifanc

Cyfanswm y nifer

Grwpiau Oedran

FFIGWR 1

Nifer y Plant a'r Bobl Ifanc o'u cynharu â'r Boblogaeth

Cyf pob

0-4 oed
5-9 oed
10-14 oed
15-17 oed
18-19 oed
20-24 oed

FFIGWR 2

## Atodiad 2

**SESIYNAU WYNEB YN WYNEB**

***Hydref 20 1993***

Cyfarfod Danny a mynd dros y taflenni gydag ef. Cerdded o gwmpas y stâd a rhoi taflenni ym mhob ty. Siarad gyda dwy fenyw ifanc ynglyn â beth oedden ni'n ei wneud. Yna cyfarfod â llanc yr oedd Danny'n ei adnabod o'r clwb. Roedd wedi darllen y taflenni!! grêt. Chwarae pel-droed gyda fe yn erbyn set o ddrysau garej. Danny'n cael yr ysbrydoliaeth o chware yn gôl, er mwyn lleihau'r nifer o weithiau y byddai'r bel yn bangio'n erbyn y drws i darfu ar y cymdogion! Prif bryder y llanc oedd y diffyg lle yn y ganolfan gymunedol, yr angen am rywle i chwarae pel-droed; pethau i'w gwneud; pel-rwyd i ferched.

Fe ofynnon ni iddo fe daenu'r gair ynglyn a beth oedden ni'n ei wneud, ac i gadw ei lygaid yn agored.

Dechrau reit dda. Trueni am y tywydd a gadwodd pawb yn y ty.

***Hydref 27 1993***

6.45pm. Yn ystod y noson, cyfarfuom â grwp o rhyw 8/9 llanc ac un llances, ac fe atebodd y rhan fwyaf ohonyn nhw'r holiadur. Cododd rhai pethau diddorol o'r drafodaeth a oedd yn newydd i mi.

- Mae rhai pobl o'r ardal yn mynd i Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy ar nosweithiau Gwener/Sadwrn pan fydd pobl ifanc y cylch yn mynd yno.
- Ymarfer pel-droed ar nosweithiau Mercher
- Dim siop gornel/siop hwyr. Mae'r un agosaf yn Garden City.
- Doedd gan bobl ifanc ddim gair da i'w ddweud am y clwb ieuenctid a arferid ei gynnal yn y ganolfan gymuned gan mai ychydig oedd ganddyn nhw i'w wneud pan oedden nhw yno. Roedd yr offer yn wael a'r staff yn methu uniaethu gyda phobl ifanc. Roedden nhw'n awgrymu bod angen i'r staff fod yn ifanc ac ag empathi â phobl ifanc - "Rhywun fel chi'ch dau y gallwn ni siarad â nhw."

Byddai angen gwaith mawr gyda'r grwp y gwnaethon ni gyfarfod ânhw neithiwr er mwyn eu trwytho mewn arferion/patrymau ymddygiad mewn clwb/man cyfarfod. Byddai gwaith gyda grwp bach yn ffordd effeithiol o weithio gyda nhw i ddechrau.

Daeth hi'n amlwg neithiwr bod y diffyg llwyr o unrhyw gyfleusterau yn broblem real i bobl ifanc a'r gymuned. Yr unig ran oedd wedi ei goleuo oedd

par o garejys y tu allan i dai ble roedd teuluoedd ifanc yn byw. Dyna'r unig ran lle gall pobl ifanc ymgasglu. Dyna'r unig le i chwarae pel-droed; mae peli'n mynd i erddi pobl, a phobl ifanc yn mynd ar eu hôl ayyb, gan arwain at deimladau gelyniaethus. Yr heddlu'n cael eu galw. (Byddai'n werth gweld faint o alwadau niwsans mae'r heddlu yn eu derbyn.)

Doedd dim llancesau yn hel ar y stryd gyda'r nos.

Roedd y berthynas rhwng y grwp o lanciau a'r oedolion i'w gweld yn un oedd yn seiliedig ar bryfocio o'r naill ochr i'r llall, gyda'r naill grwp yr un mor euog â'r llall. Ac eto, roedd rhyw fath o ddealltwriaeth yn bodoli, gan bod pobl ifanc yn mynd i un ty yn arbennig am sigarets ac i weld beth oedd yn mynd ymlaen (parti dillad yn yr achos hwn). Mae'n bosib y byddai o werth siarad gyda phobl y ty hwn ynglyn â phynciau'n ymwneud â phobl ifanc. Yn sicr, mae patrwm diwylliannol ynghlwm wrth bobl ifanc a'u hymddygiad tuag at oedolion.

***Grwp Rhieni Ifanc, Hydref 28 1993***

Mae'r grwp rhieni ifanc yn cynnwys pobl a fyddai ar hyn o bryd yn syrthio i'r categori pobl ifanc rhwng 19 - 25 oed, a rhai sydd ond newydd symud allan o'r grwpp oedran hwn.

- Roedd pobl yn dweud bod pobl ifanc wastad wedi stelcian ar y stad a bod llanciau, yn enwedig, wastad wedi bod yn broblem. Roedd pobl ifanc wastad wedi bod ynghlwm wrth rhyw firi neu'i gilydd ayyb

- Mi siaredais hefyd â grwp hynod lafar o blant 10/11 oed a oedd yn bryderus iawn ynglyn â phresenoldeb y llanciau hyn. Roedden nhw'n eu gweld yn fygythiad ac yn credu eu bod yn niwsans: nhw oedd wrth wraidd yr holl drwbwl ar y stad.

- Roedd y siopau'n anodd cerdded atynt gyda phlant, yn arbennig felly yn y gaeaf pan fydd y llwybr tanddaear dan ddwr. Rhaid iddyn nhw ddilyn y ffordd hir, sy'n golygu croesi ffordd brysur. Mae hyn yn creu pryder ynglyn â diogelwch plant.

**PYNCIAU**

1. Clwb Iau - a allai'r cyngor feithrin diddordeb ymhlith oedolion y stad i redeg clwb.

2. Gwaith grwp gyda llanciau hyn. Mae'n bosib y byddai gweithiwr grwp yn gallu gweithredu fel hyrwyddwr i'r grwp hwn, gan ddechrau'n hamddenol drwy gyfarfod yn y ganolfan gymunedol am goffi a thrafodaeth, egwyddorion ayyb. Yna defnyddio'r grwp fel adnoddyn i ddatblygu syniadau.

*Hydref 28 1993 - gyda'r nos*

Treuliais y rhan fwyaf o'r noson yn siarad a thri llanc (rhyw 13-15 oed) a oedd yn llosgi coelcerth gerllaw'r ganolfan cymunedol. Roedden nhw i gyd yn dweud bod angen pethau i'w gwneud. Yna fe aethon ni i Sealand Road a sylwi bod nifer o bobl ifanc yn cerdded o gwmpas y lle. Byddai'n ddefnyddiol gwneud hyn eto pan fydd y ganolfan ieuenctid ar agor, er mwyn gweld a oedd unrhyw wahaniaeth.

*Tachwedd 3 1993*

Cyfarfod a 4 merch yng nghartref un ohonynt. Roedden nhw'n poeni ynglyn a'r diffyg cyfleusterau, a'u hateb nhw i bopeth oedd discos a bingo. Roedden nhw hefyd yn bryderus ynglyn a'r llanciau hyn.

Yna fe gyfarfyddon ni a 3 llances ar y stryd a oedd hefyd yn gweld disgos fel ffordd o leddfu peth ar y diflastod.

*Tachwedd 4 1993*

Fe es a thaflenni i'r bobl ifanc hynny a roddodd eu henw a'u cyfeiriad i ni, er mwyn i ni ddweud wrthyn nhw am y cyfarfod yr wythnos nesaf i drafod casgliadau ein gwaith.

*Tachwedd 10 1993*

Cyfarfod gyda Gweithiwr Ieuenctid yng Nghanolfan Ieuenctid Sealand

- Mae llanciau o Sealand Manor yn defnyddio'r ganolfan, ond does dim llancesau yn mynd draw er bod bws mini yn cael ei drefnu ar gyfer y siwrnai yn ol.
- Nodwyd sut oedd diwylliant y Manor yn gyfrwng o bolareiddio dwy gymuned Sealand.
- Yn eitha hoff o'r synaid o atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y ganolfan a Sealand Manor drwy gyfrwng cyfnod estynedig o waith maes.

*Tachwedd 10 1993*

Cyfarfod gydag Adran yr Heddlu yn y Gymuned

Roedd yr Heddlu yn pryderu ynglyn a Sealand Manor ac yr un mor bryderus ynglyn ag ymddygiad y llanciau.

***Tachwedd 10 1993***

Cyfarfod a phobl ifanc

Mynychwyd y cyfarfod hwn gan nifer o blant a phobl ifanc ac fe ddywedon ni wrthyn nhw beth oedd ein casgliadau er mwyn rhoi rhyw fath o brawf arnyn nhw. Ar y cyfan, roedden ni wedi canfod y rhan fwyaf o bethau oedd yn bwysig gan y grwp hwn. Cawsom y grwp yn barod i gyfarfod a'r cynghorwyr cymuned ar yr 17eg. Roedd hi'n destun siom nad oedd unrhyw un o'r llanciau hyn yn bresennol.

***Tachwedd 11 1993***

Cyfarfod a Jack Harty i adrodd yn ol o gyfarfodydd a thrafod atebion. Yna fe es i i siarad a'r bobl oedd yn rhedeg yr ysgol saethu drws nesaf i'r stad, gan bod yr Heddlu a Jack Harty wedi siarad yn gadarnhaol amdanyn nhw ac am eu hymdrechion i gefnogi'r gymuned. Ond fe'u cefais i nhw wedi eu digalonni'n gyffredinol gydag ymateb y gymuned i'w menter.

***Tachwedd 17eg 1993***

Cyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned a'r bobl ifanc. Eto, run o'r llanciau hyn yn bresennol. Cynigiodd Jack Harty redeg Clwb Iau. Cafodd dderbyniad da gan y grwp, ond rhaid ei gynllunio'n iawn.

***Tachwedd 18fed 1993***

Adrodd yn ol i'r Gwasanaeth Cymdeithasol, yr Asiantaeth Gymunedol a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Y prosiect wedi cael derbyniad da gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd y Gwasanaeth Ieuenctid yn barod i sicrhau adnoddau i ddatblygu rhai o argymhellion yr adroddiad. Bydd yr Asiantaeth Gymunedol yn cydlynu'r gwaith.

**Atodiad 3**

GWEITHWYR IEUENCTID YW LIAM KEALY A DANNY HAMELL, AC MAEN NHW'N GWEITHIO I GYNGHORAU LLEOL

RYDYM YN CEISIO CANFOD BETH YDYCH CHI'N MEDDWL YW'R PRIF BROBLEMAU SY'N WYNEBU POBL IFANC YN YR ARDAL HON, A PHA GYFLEUSTERAU FYDDECH CHI'N HOFFI EU CAEL AR GYFER POBL IFANC.

MAE GENNYM DDIDDORDEB HEFYD MEWN CANFOD A FYDDECH CHI'N HOFFI HELPU I SEFYDLU'R CYFLEUSTERAU HYN

BYDD Y WYBODAETH A ROWCH CHI I NI YN CAEL EI CHYFLWYNO I'R CYNGOR CYMUNED, A BYDDAN NHW, YN EU TRO, YN DEFNYDDIO'R WYBODAETH HONNO I DRAFOD SYNIADAU GYDA SEFYDLIADAU FEL Y GWASANAETH IEUENCTID NEU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, ER MWYN CEISIO CAEL RHYWBETH I DDIGWYDD YN SEALAND MANOR.

GALLWN DREFNU I CHI GYFARFOD A'R CYNGOR CYMUNED, OS MAI DYNA EICH DYMUNIAD, ER MWYN I CHI DRAFOD EICH SYNIADAU GYDA NHW.

FE FYDDWCH YN SIWR O'N GWELD NI'N CERDDED O AMGYLCH Y STÂD YN YSTOD YR WYTHNOSAU NESAF YMA, FEL ARFER AR NOS FERCHER A NOS IAU, FELLY OS OES GENNYCH CHI UNRHYW SYNIADAU, NEU OS YDYCH CHI'N FODLON ATEB UN O'N HOLIADURON NI, YNA DEWCH DRAW AM SGWRS.

**Atodiad 4**

**SEALAND MANOR**

**HOLIADUR YMGYNGHORI A PHOBL IFANC**

Rhyw GWRYW ☐ BENYW ☐ OEDRAN _________

1. Beth yw'r pethau da ynglyn â byw yn Sealand Manor?

2. Beth yw'r pethau gwael ynglyn â byw yn Sealand Manor?

3. Beth yw prif bryderon pobl ifanc sy'n byw yn yr ardal hon?

4. Pa gyfleusterau sydd ar gael I bobl ifanc yr ardal hon?

5. Pa fath o bethau garech chi eu gweld yn cael eu cynnal ar gyfer pobl ifanc yr ardal hon?

6. Fyddech chi'n fodlon trefnu unrhyw weithgareddau neu brosiectau ar gyfer pobl ifanc?

   Byddwn ☐ Na fyddwn ☐

   Os mai "byddwn" yw'r ateb, ydych chi'n fodlon rhoi eich enw a'ch cyfeiriad i ni?

7. Sut fath o gymorth fyddai pobl ifanc ei angen i drefnu gweithgareddau neu brosiectau?

8. Sut fyddai modd defnyddio'r ganolfan gymuned ar gyfer pobl ifanc?

9. Ydych chi erioed wedi bod yng nghanolfan ieuenctid Garden City ac os do, beth yw eich barn ynglyn â beth sy'n cael ei gynnig yno?

Diolch am lenwi'r holiadur.

Rydym am geisio cynnal cyfarfod i bobl ifanc yn y ganolfan gymuned ar ddydd Mercher, 10fed Tachwedd er mwyn gadael i chi wybod beth yw'r canlyniadau ac er mwyn gweld beth mae pobl ifanc am ei wneud ynglyn â nhw.